| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **23 MAWRTH 2012** |
| **PWRPAS** | **Hysbysu'r Pwyllgor am y sefyllfa ddiweddaraf** |
| **TEITL** | **NEWIDIADAU I'R CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL** |
| **AWDUR** | **DILWYN WILLIAMS, CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Rhoddwyd gwybodaeth am newidiadau arfaethedig y Llywodraeth ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn adroddiadau blaenorol i'r Pwyllgor hon. Mewn cyfarfod ar 25 Tachwedd 2011 cytunodd y Pwyllgor ar ei ymateb i'r ddogfen ymgynghori.

1.2 Yn ystod y broses ymgynghori arwyddodd y Gymdeithas Llywodraeth Leol a'r undebau llafur perthnasol Pennau'r Cytundeb ar yr egwyddorion y bydd yn rheoli dyluniad y cynllun, rheolaeth costau cyfredol a llywodraethu'r cynllun newydd.

1.3 Mae'r Llywodraeth wedi datgan yn glir bod yr egwyddorion yma yn datgan ei safbwynt terfynol ar brif elfennau dyluniad y cynllun.

## 2. PARAMEDRAU DYLUNIAD Y CYNLLUN

2.1 Mae'r 17 egwyddor sydd wedi cael eu gosod ar gyfer y cynllun newydd yn cynnwys egwyddorion y dyluniad newydd yn ogystal â'r mecanwaith rheolaeth a llywodraethu. Gweler Atodiad A ar gyfer rhestr lawn o'r egwyddorion.

2.2 Mae'r paramedrau craidd dyluniad y cynllun newydd cytunedig fel a ganlyn:

a) datrysiad sengl i'r materion tymor byr a thymor hir trwy gyflwyniad buan o'r Cynllun newydd yn Ebrill 2014, gyda rheoliadau mewn lle erbyn Ebrill 2013;
b) y datrysiad sengl yn seiliedig ar enillion cyfartaledd gyrfa;
c) gallu cynnwys dim cynnydd mewn cyfraniadau gweithwyr i bawb, neu i'r mwyafrif helaeth o aelodau, yn amodol ar gwrdd â'r rhwystrau ariannol cyffredinol y Llywodraeth;
ch) rhai elfennau o ddewis er mwyn annog dargadwedd aelodaeth bresennol ac annog aelodaeth newydd;
d) oedran ymddeol hyblyg wedi ei seilio ar oedran ymddeol arferol y Cynllun yn cyfateb i Oedran Ymddeol y Wlad neu 65, pa un bynnag sy'n hwyrach, ac yn ac yn berthnasol i aelodau presennol a gohiriedig (aelodaeth cynllun newydd yn unig). Os yw Oedran Pensiwn y Wlad yr aelod yn codi, yna

bydd oedran pensiwn arferol yn codi ar gyfer yr holl wasanaeth wedi 2015.

2.3 Mae'r brif egwyddor mewn perthynas i reoli a llywodraethu yw'r capiau cyflogwyr (gyda gwerth nenfwd a llawr) i'w gosod trwy gytundeb gyda'r prif rhanddeiliaid.

## 3. NEWIDIADAU O'R CYNIGION GWREIDDIOL

3.1 Roedd y cynigion gwreiddiol yn dilyn Adroddiad Hutton yn gofyn am godiadau mewn cyfraniadau gweithwyr yn Ebrill 2012. O dan y cytundeb newydd nad yw hyn yn wir ar gyfer y Cynllun Llywodraeth Leol.

3.2 Gweithredir yr holl newidiadau angenrheidiol i'r cynllun ar yr un pryd yn 2014 yn hytrach na chodi cyfraniadau gweithwyr yn 2012 a newidiadau eraill i'r Cynllun yn 2015.

3.3 Mae opsiwn i beidio cynyddu cyfraniadau gweithwyr os oes modd darganfod yr arbedion mewn dulliau eraill.

3.4 Cynhwysir dewisiadau i unigolion a byddai hyn gydag effaith sylweddol ar weinyddiaeth y Cynllun.

3.5 Er hynny, mae'r egwyddorion o gynllun cyfartaledd gyrfa ac oedran ymddeol diweddarach dal yn hanfodol ar gyfer y cynllun newydd.

## 4. AMSERLEN

4.1 Mae'r angen cael rheoliadau mewn lle erbyn 30 Mawrth 2013 er mwyn i actiwarïaid y cronfeydd cymryd effaith y newidiadau i'r cynllun i ystyriaeth a chaniatáu cwrdd â'r amcanion tymor byr yn gosod yr amserlen i weithredu'r holl newidiadau erbyn 31 Mawrth 2014.

4.2 Mae'r amserlen mewn pedwar cam fel a ganlyn:

**Cam 1 –** cytundeb ar egwyddorion ac amserlenni **– erbyn Rhagfyr 2011**
**Cam 2** - cytundeb ar eitemau 'mawr' (cyfraniadau, cyfradd cronni, cyfradd ail-brisio, gwarchodi, cap cyflogwyr, amlinelliad mecanwaith rheoli costau) - **erbyn Medi 2012**
**Cam 3** - cytundeb ar weddill dyluniad y cynllun - **erbyn Tachwedd 2012**
**Cam 4 –** cytundeb ar fecanwaith i sicrhau rheolaeth effeithiol o gronfeydd unigol. **– erbyn Tachwedd 2012**

## 4. CASGLIAD

4.1 Gofynnir i aelodau nodi'r newidiadau i'r cynigion a chyflwynir adroddiadau pellach i'r Pwyllgor hon wrth i'r Cynllun newydd gael ei datblygu.

**ATODIAD A**

## EGWYDDORION DYLUNIAD Y CYNLLUN NEWYDD

**Egwyddor 1**
Datrysiad sengl i'r materion tymor byr a thymor hir trwy gyflwyniad buan o'r cynllun newydd (rheoliadau erbyn Ebrill 2013 a gweithrediad o Ebrill 2014) yn negyddu'r angen am newidiadau cyn Ebrill 2014.

**Egwyddor 2**
Bod y datrysiad sengl yn cael ei dylunio trwy opsiynau y byddai'n gweithio ar sail cyfartaledd gyrfa ac yn gallu cynnwys dim cynnydd mewn cyfraniadau gweithwyr i bawb neu i'r mwyafrif helaeth o aelodau yn amodol ar gwrdd â'r rhwystrau ariannol cyffredinol (yn cydnabod bod cyfyngiadau o'r fath yn gallu newid yn ddibynnol ar negodi pellach gyda'r Trysorlys i gwrdd â'r costau gwarchodaeth - egwyddor 7 - ac na fydd modd cyfri arbedion a ailgylchir teirgwaith).

**Egwyddor 3**
Bod y cynllun newydd yn cynnwys rhai elfennau o ddewis er mwyn annog dargadwedd aelodaeth bresennol ac annog aelodaeth newydd.

**Egwyddor 4**
Bod costau'r cynllun yn seiliedig ar wir brofiad a bod y waelodlin yn cael ei darparu gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) o'r data'r gronfa model, yn gallu cael ei gwireddu'n annibynnol ac yn cael eu cefnogi gan yr Association of Consulting Actuaries (ACA).

**Egwyddor 5**
Er mwyn annog ymddeoliad hyblyg, bydd yr oedran y gallai cymryd buddion (yr oedran pensiwn) unrhyw amser rhwng 55 a 75. Diwygir buddion i fyny neu i lawr mewn perthynas i agosrwydd yr Oedran Ymddeol Arferol (NPA) sydd i'w cysylltu gyda'r Oedran Pensiwn Gwlad (SPA) neu oedran 65 pa un bynnag sy'n hwyrach.

**Egwyddor 6**
Bod mynediad at y cynllun yn cael ei darparu ar gyfer ystod eang o weithwyr sydd yn darparu gwasanaethau cyhoeddus wrth barhau gyda'r trefniadau Statws Corff a Ganiateir (ABS).

**Egwyddor 7**
Bod y dull o gwrdd â'r gost gwarchodaeth (cyflog terfynol ac oedran ymddeol yn yr hen gynllun a'r warchodaeth 10 mlynedd ar gyfer pensiwn ac oedran yn y cynllun newydd), eu gwerth cymharol i gynlluniau sector cyhoeddus eraill a'r sgôp ar gyfer ail-gylchu yn gorfod cael eu cadarnhau gan y Trysorlys.

**Egwyddor 8**
Bod effeithlonrwydd cost y cynllun yn cael eu gwireddu trwy gaffael a darpariaeth gweinyddiaeth a gwasanaethau buddsoddi mwy effeithiol.

**Egwyddor 9**
Bod y CPLlL yn cadw ei gwerth cymharol mewn termau buddiannau mewn perthynas i gynlluniau sector cyhoeddus eraill.

**Egwyddor 10**
Bod dyluniad y cynllun yn amodol ar asesiad effaith cydraddoldeb cadarn ac annibynnol i sicrhau ei bod yn cwrdd â'r holl anghenwn gydraddoldeb deddfwriaethol mewn effaith a bwriad.

## EGWYDDORION MECANWAITH RHEOLAETH A LLYWODRAETHU

**Egwyddor 11**
Bod gwerth y cynllun cyfredol a chap cyfraniadau cyflogwr o fewn y gwerth hwnnw yn cael ei gosod trwy gytundeb rhwng y prif y prif rhanddeiliaid y cynllun.

**Egwyddor 12**
Bod cap y cyflogwr yn cynnwys gwerth y nenfwd a'r llawr (cap a choler).

**Egwyddor 13**
Er mwyn sicrhau cynaladwyedd tymor hir y cynllun, bydd y mecanwaith rheolaeth a llywodraethu angenrheidiol i gadw cyfraniadau cyflogwyr o fewn y cap a choler yn cael eu gosod trwy reoliadau'r cynllun, o dan reolaeth y prif rhanddeiliaid a defnyddio data'r gronfa model.

**Egwyddor 14**
Bydd y mecanwaith yn cynnwys ffyrdd i amrywio ymrwymiadau a refeniw (e.e. newidiadau i'r strwythur buddion a / neu gyfraddau cyfrannu gweithwyr). Bydd y mecanwaith hefyd yn cynnwys sefyllfa rhagosoded os nad oes cytundeb o fewn amserlen rhagosod. Er hynny na ddylid sefyllfa rhagosoded yn cynnwys anfanteision rhagduedd ac anghyfartal i weithwyr na chyflogwyr.

**Egwyddor 15**
Bod mecanwaith clir ac effeithiol yn cael ei gosod er mwyn cyfieithu effeithiol y cap a choler i gyflogwyr unigol yn y CPLlL. Yn benodol y sefyllfaoedd y byddai caniatáu gosod cyfraddau cyflogwyr unigol tu allan i'r cap a choler.

**Egwyddor 16**
Bod y lefelau cyllido unigol yn cael eu monitro a'u cadw o fewn ystod dderbyniol o fewn y cap a'r coler.

**Egwyddor 17**
Bod mecanwaith y cap a choler yn rhan hanfodol o'r cytundeb ar y cynllun newydd yn hytrach na phroses ar wahân.